OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1399

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

**Hysbysiadau sy'n ofynnol er mwyn cyfethol cynghorwyr cymuned ar gyfer swyddi sy'n digwydd dod yn wag**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad cyhoeddus sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 116(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**) ("Mesur 2011") mewn cysylltiad â swydd neu swyddi sy'n digwydd dod yn wag rhwng 16 Mawrth 2020 ac 31 Ionawr 2021.

(2) Nid yw adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**) yn gymwys.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig.

(4) Mae'r cyfeiriad at swyddogaethau yn adran 117(1) o Fesur 2011 yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau o dan y rheoliad hwn mewn perthynas â hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 116(2) o'r Mesur.

(**1**) 2011 mccc 4.
(**2**) 1972 p.70. Gwnaed ddiwygiadau perthnasol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (2013 dccc 4).